# LLAWLYFR

# YSGOL GYMUNED PENISARWAUN 2019-20



# LLAWLYFR YSGOL GYMUNED PENISARWAUN

(Adolygwyd Mehefin 2019)

ENW A CHYFEIRIAD YR YSGOL

Ysgol Gymuned Penisarwaun
Penisarwaun
Caernarfon
Gwynedd
LL55 3BW

PENNAETH
Catrin Lloyd Roberts BA

Cadeirydd y Llywodraethwyr
Gwenllian Carr

RHIF FFON — (01286) 870879

E-BOST — CatrinLloydRoberts@gwynedd.llyw.cymru

GWEFAN — www.ysgolpenisarwaen.org

## Y CORFF LLYWODRAETHOL

| | Yn Cynrychioli | Daw Tymor i Ben |
|---|---|---|
| Mrs Gwenllian Herd | Cadeirydd - Awdurdod Lleol | Awst 2022 |
| Ellen Baines | Is-Gadeirydd, Rhieni | Awst 2020 |
| Sedd wag i'w llenwi Medi 2019 | Rhieni | Awst 2023 |
| Sedd wag i'w llenwi Medi 2019 | Rhieni | Awst 2023 |
| Rhian Elin George | Awdurdod Addysg Leol | Awst 2023 |
| Miss Phyllis Ellis | Cyngor Cymuned | Awst 2020 |
| Mr Steven Walker | Cyfetholwyd | Awst 2023 |
| Mrs Carol Jones | Cyfethol | Awst 2022 |
| Mrs Nia Haf Jones | Athrawon | Awst 2021 |
| Catrin Lloyd Roberts | Pennaeth | Ebrill 2020 |
| Mrs Elizabeth Jones | Clerc | |

Annwyl Rieni, Warcheidwad

Croeso i Ysgol Gymuned Penisarwaun.

Wrth gyflwyno'r llawlyfr hwn i'ch sylw fe garem estyn croeso cynnes i'ch plentyn i'r ysgol. Mae ysgol Gymuned Penisarwaun yn ysgol hapus a chredwn y bydd eich plentyn yn setlo yn fuan iawn o fewn cymuned yr ysgol. Ein nod yw datblygu hunanhyder pob plentyn, eu harfogi â'r annibynniaeth i gychwyn ar y daith o fod yn ddysgwyr cydol oes ac yn ddinasyddion medrus a chyfrifol. Ceisiwn gyflwyno addysg eang a pherthnasol i bob plentyn a hynny mewn awyrgylch ysgogol a symbylus lle mae dysgu yn hwyl!

Pwysleisiwn mai partneriaeth yw addysg rhyngom ni yma a chwithau yn y cartref. Mewn cydweithrediad fe obeithiwn y bydd cyfnod eich plentyn gyda ni yn un hapus ac y bydd yn datblygu'n addysgol a chymdeithasol. Rydym ni yn 'deulu bach hapus' yma a phawb yn cael cyfle i chwarae rôl llawn ymhob agwedd o waith a bywyd yr ysgol.

Rydym yn ymfalchio yn y modd y mae holl rhanddeiliaid yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol i gyrraedd yr un amcanion: plant, staff, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach yma ym Mhenisarwaun.

Gobeithiwn y bydd y Llawlyfr yma o gymorth i chwi adnabod yr ysgol a'r modd y gallwch chi atgyfnerthu ein gwaith gyda'ch plentyn. Cyflwynir manylion am nifer o bethau sydd o bwys i gynorthwyo trefniadaeth dydd i ddydd yr ysgol ac i helpu eich plentyn i ymgartrefu'n fuan.

Er hynny, nid oes modd cynnwys yr holl wybodaeth am yr ysgol yma ac fe nodir y gall rhai manylion newid rhwng amser cyhoeddi'r llawlyfr a dechrau'r flwyddyn ysgol. Fe'ch gwahoddir felly i drafod ei gynnwys, neu unrhyw beth nad ydym wedi ei gynnwys, gyda mi trwy wneud trefniadau i ymweld â'r ysgol.

Yn gywir iawn

*Catrin Lloyd Roberts*

Pennaeth

# STAFF YR YSGOL Medi 2019

| | | |
|---|---|---|
| Pennaeth | — | Catrin Lloyd Roberts BA |
| Athro CA2 | — | Wyn Morgan Griffith BA |
| Athrawes CS | — | Nia Haf Jones BA (mamolaeth) |
| | – | Mrs Ffion Lloyd Hughes(dros dro) |
| Cymhorthydd CS | — | Sharon Jones (Miss Sharon) |
| Cymhorthydd ADY | — | Tania Jones (Miss Tania) |
| Cymhorthydd ADY | — | Rhian Owen (Miss Owen) |
| Ysgrifenyddes | — | Elizabeth Jones |
| Cogyddes | — | Carolyn Jones |
| Gofalwr | — | Huw Williams |
| Goruchwylwyr | — | Carole Porter |
| | | Sharon Jones |
| | | Tania Jones |

## NATUR YR YSGOL

Ysgol Gynradd Sirol (Meithrin/Babanod/Iau) yw'r ysgol hon. Mae'n ysgol gymunedol, ddyddiol, gydaddysgol ar gyfer plant 3-11 oed.

## Y SEFYLLFA IEITHYDDOL

Ysgol cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Gymuned Penisarwaun ac mae'r staff a'r disgyblion yn gweithio'n galed i gadw naws ac awyrgylch Gymreig yr ysgol. Ni ddylai'r rhai ohonoch sydd a'ch plant yn ran o sefyllfa ddwyieithog am y tro cyntaf deimlo dan fygythiad na theimlo nad ydych chi'n perthyn. Efallai nad ydych chi'n siarad Cymraeg (er bod llawer o rieni'n penderfynu dysgu'r iaith), ond gobeithiwn y byddwch yn parchu'r awyrgylch ieithyddol sy'n bodoli yma, awyrgylch sy'n cyfoethogi cymaint ym mhob ystyr ar brofiadau dysgu'r plant. Parchwn eich hawl chi i ddefnyddio'r iaith a ddewisir gennych, ac i'r diben hwnnw, bydd pob gohebiaeth o'r ysgol yn ddwyieithog.

## POLISI MYNEDIAD

Mae plant oed meithrin yn cael eu derbyn i'r ysgol yn rhan amser yn y Mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed ac mae plant yn cael eu derbyn i'r ysgol yn llawn amser yn y Mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 4 oed.

Gellir cynnig mynediad ynghynt i ysgol na'r hyn a gynigir o dan y polisi mynediad mewn achosion eithriadol, a gyfeirir am resymau penodol yng nghyd-destun Deddf Plant 1989 trwy'r:-
(i) Gwasanaethau Cymdeithasol neu
(ii) Swyddog Meddygol y Sector Perthnasol

Mae gan bob ysgol rif mynediad swyddogol—8 ar gyfer Ysgol Gymuned Penisarwaun ac mae'n rhaid gwneud cais i'r Awdurdod Addysg cyn y gellir derbyn plentyn i'r ysgol. Mae'n rhaid gwneud cais erbyn Chwefror1af 2019 ar gyfer mynediad i'r Meithrin ac i'r derbyn ym Medi 2019.

## ADDYSG GYFLAWN

Er bod pwyslais ar y Cwricwlwm Cenedlaethol, yr ydym yn ymwybodol iawn bod ochr arall bwysig iawn i addysg a datblygiad cyflawn plentyn. Yn Ysgol Gymuned Penisarwaun, rydym yn ceisio datblygu holl sgiliau a doniau'r plant drwy weithgareddau fel cyngherddau, gwasanaethau (e.e. Dydd Gŵyl Dewi), ymweliadau, teithiau preswyl, clybiau ar ôl ysgol, yr Urdd, a chwaraeon o bob math.

## POLISI IAITH

Mae Awdurdod Addysg Gwynedd yn gweithredu polisi o ddarparu addysg ddwyieithog yn eu hysgolion cynradd. Yr amcan yw datblygu gallu plant a meithrin eu hyder er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas y maent yn perthyn iddi.

Ysgol Gymraeg naturiol ydym ni a Chymraeg yw iaith gyfathrebu naturiol yr ysgol. Mae cyfle i hwyrddyfodiaid i fynychu'r Uned Iaith ym Maesincla.

Yn ystod y Cyfnod Sylfaen, fe adeiladir ar y sylfeini a osodwyd i'r Gymraeg yn ystod y cyfnod meithrin, cadarnhau a datblygu mamiaith y plentyn o ddysgwyr Cymraeg ac ymestyn gafael y plentyn o gartref Cymraeg ar y Saesneg. Cymraeg fydd prif gyfrwng a gweithgareddau yn y Cyfnod Sylfaen ond, cyflwynir plant i'r Saesneg pan fydd yr ysgol yn teimlo bod plentyn yn barod i wneud hynny,

Yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd pob plentyn yn cadarnhau a datblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhwydd a hyderus yn y ddwy iaith erbyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Pe bai mwy 'na 8 o blant yn gwneud cais am fynediad, bydd llefydd yn cael eu pennu fel a ganlyn:-

1. Gall yr Awdurdod roi mynediad i blant nes bod y nifer sy'n cael mynediad uwchben y rhif mynediad cyhyd nad yw derbyn yn "peryglu darparu addysg effeithlon neu ddefnydd effeithlon o adnoddau".
2. Rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal.
3. Bydd yr Awdurdod yn ystyried achosion sy'n cael eu cyfeirio i'r Awdurdod gan y Gwasanaethau Cymdeithasol neu Swyddog Meddygol y Sector perthnasol, ble mae angen rhoi mynediad i blentyn i ysgol oherwydd eu lles meddygol neu gymdeithasol neu ble mae datganiad plentyn sydd ag anghenion addysgol arbennig yn enwi ysgol neilltuol.
4. Disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch diffiniedig ysgol. Os ceir mwy o geisiadau o'r fath na nifer y llefydd ar gael, bydd rhaid blaenoriaethu gan ddefnyddio'r meini prawf isod.
5. Disgyblion sydd ar hyn o bryd ac a fydd â brawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol pan fo'r disgybl i fod i ddechrau yno (gan roi blaenoriaeth i blant sy'n byw agosaf at yr ysgol).
6. Pellter cyfeiriad y cartref o gyfeiriad yr ysgol.

Swyddog mynediad yr Awdurdod Addysg Lleol yw Dewi Hughes a'i rif ffôn yw 01286 679904

## CYTUNDEB CARTREF-YSGOL

Er mwyn datblygu'r berthynas gyda rhieni a'r plant, gwahoddir hwy i arwyddo cytundeb sy'n amlinellu cyfrifoldebau ac addewidion yr ysgol wrth gynnig yr addysg orau bosibl i blentyn ac i amlinellu cyfrifoldebau ac addewidion y rhieni wrth gynnig cefnogaeth i'w plentyn trwy eu hamser yn yr ysgol. Hefyd, rydym yn annog y plant i arwyddo'r cytundeb er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'u rôl hollbwysig yn eu haddysg eu hunain. (gweler copi yn yr atodiadau)

## ORIAU'R YSGOL

| | |
|---|---|
| Meithrin | 09:00—11:00 |
| Cyfnod Sylfaen | 09:00—15:00 |
| Cyfnod Allweddol 2 | 09:00—15:10 |

Oriau Dysgu

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | 21 awr yr wythnos |
| Cyfnod Allweddol 2 | 23.5 awr yr wythnos |

## GORUCHWYLIO

Mae staff yr ysgol yn gweithredu trefn o oruchwylio'r plant yn ystod y cyfnodau isod.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Clwb Brecwast | 08:15—08:50 |
| 2. | Cyn Ysgol | 08:50—09:00 |
| 3. | Egwyl y Bore | 10:40—10:55 |
| 4. | Egwyl y Prynhawn | 14:00—14:10 (Cyfnod Sylfaen) |
| 5. | Diwedd y Prynhawn | 15:00—15:20 |

Gweithredir system rota ddyddiol gydag o leiaf dau aelod o staff ar ddyletswydd ar y buarth trwy gydol y cyfnodau egwyl. Mae trefniadau mewn lle i sicrhau bod staff yn cyflenwi dros ei gilydd os bydd absenoldeb.

Mewn cyfnodau o dywydd garw, fe fydd yr athrawon dosbarth yn goruchwylio'r plant yn y dosbarthiadau ac yn darparu gweithgareddau priodol ar eu cyfer.

Mae o leiaf dau berson yn goruchwylio'r plant yn ystod amser cinio, gan fynd allan gyda'r plant neu eu goruchwylio yn y dosbarth os yw'r tywydd yn wael.

# GWYLIAU YSGOL
## 2019-2020

**TYMOR:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hydref 2019 | 2 Medi 2019 | - | 20 Rhagfyr 2019 |
| Gwanwyn 2020 | 6 Ionawr 2020 | - | 3 Ebrill 2020 |
| Haf 2020 | 20 Ebrill 2020 | - | 20 Gorffennaf 2020 |

Bydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ddydd Mawrth, 3 Medi, 2019.

**GWYLIAU:**

| | |
|---|---|
| 28 Hydref – 1 Tachwedd 2019 | (Hanner-Tymor) |
| 23 Rhagfyr 2019 - 3 Ionawr 2020 | (Gwyliau'r Nadolig) |
| 17 - 21 Chwefror 2020 | (Hanner-Tymor) |
| 6 - 17 Ebrill 2020 | (Gwyliau'r Pasg) |
| 4 Mai 2020 | (Calan Mai) |
| 25 - 29 Mai 2020 | (Hanner-Tymor) |
| 21 Gorffennaf - 31 Awst 2020 | (Gwyliau'r Haf) |

## GWYLIAU / AMSER TYMOR YSGOL 2019-20

**Bydd 4 diwrnod arall o hyfforddiant staff (HMS) yn ystod y flwyddyn . Manylion i ddilyn.**

## ABSENOLDEB

Os yw plentyn yn absennol o'r ysgol am unrhyw reswm, gofynnir i rieni neu warcheidwaid gysylltu â'r ysgol i'n hysbysu o'r rheswm dros yr absenoldeb cyn 09:00 ar fore'r salwch.

Bydd yr ysgol yn rhyddhau plentyn i fynychu apwyntiadau meddygol / deintyddol ond gofynnir i rieni ddod â'r plentyn yn ôl i'r ysgol os oes modd.

Mae disgwyl i rieni wneud pob ymdrech resymol i geisio peidio â chymeryd gwyliau teuluol yn ystod y tymor ysgol. Os bydd y sefyllfa'n codi, mae disgwyl i rieni gwblhau'r ffurflen briodol sydd ar gael o swyddfa'r ysgol cyn gwneud y trefniadau.

Os yw plentyn yn absennol o'r ysgol am gyfnod estynedig, bydd yr ysgol yn sicrhau bod gwaith yn cael ei yrru gartref. Mewn digwyddiadau o absenoldeb rheolaidd neu heb esboniad digonol, bydd yr ysgol yn cyfeirio'r mater at y Swyddog Lles Addysg.

Darperir gwybodaeth ysgrifenedig i rieni o leiaf unwaith y flwyddyn ynglŷn a phresenoldeb/absenoldeb eu plentyn. Mae adroddiad blynyddol y corff llywodraethol i rieni yn cynnwys gwybodaeth am bresenoldeb/absenoldeb ar lefel ysgol gyfan.

## CAU'R YSGOL MEWN ARGYFWNG

O bryd i'w gilydd, mae angen i'r Pennaeth gau'r ysgol er mwyn lles a diogelwch plant, staff a'r rhieni sy'n eu cludo yn ôl ac ymlaen o'r ysgol. Gall hyn ddigwydd cyn i'r ysgol gychwyn yn y bore neu yn ystod y diwrnod.

Os bydd yr ysgol yn gorfod cau, hysbysir rieni drwy'r dulliau canlynol:-

1. Neges Testun
2. Gwefan Cyngor Gwynedd — www.gwynedd.gov.uk
3. Heart FM
4. Gwefan y BBC — www.bbc.co.uk
5. Trydar

Ni fydd unrhyw blentyn yn cael ei ryddhau o'r ysgol mewn sefyllfa o argyfwng heb iddynt gael eu casglu gan riant / warcheidwad.



# DANFON A CHYRCHU PLANT O'R YSGOL

Disgwylir i rieni plant Meithrin, Derbyn a Bl.1/2 ddanfon eu plant i'r ysgol bob dydd. Gofynnir i chwi ollwng eich plant wrth y fynedfa gefn onibai eich bod yn defnyddio'r Clwb Brecwast. Rydym yn geisio annog annibyniaeth y disgyblion o'r cychwyn.

Os mai rhywun ar wahan i riant neu warcheidwad sy'n casglu plentyn o'r ysgol, gofynnir i chwi ein hysbysu os gwelwch yn dda.





Yn ystod tymor cyntaf plentyn yn y Dosbarth Meithrin / Derbyn, mae croeso i rieni ddefnyddio'r fynedfa wrth y dosbarth Cyfnod Sylfaen wrth ddanfon eu plentyn i'r ysgol.

# PARCIO TU ALLAN I'R YSGOL

Mae nifer o'r plant yn teithio i/o'r ysgol mewn car. Er mwyn diogelwch y plant yn ystod y cyfnodau prysur yma, gofynnir yn garedig i chwi:-

1. Gadw'n glir o fynedfa Bryn Tirion
2. Barcio wrth ochr y palmant i gyfeiriad Bryn Eglwys o'r ysgol
3. Sicrhau fod plant yn dod allan o'r ceir ar ochr y palmant, nid ochr y ffordd.
4. Peidio gyrru I mewn I faes parcio'r ysgol nac ychwaith barcio wrth y fynedfa.

Cewch barcio yn y gilfan wrth fynedfa'r ysgol os:-

- Yw'r car o fewn y marciau melyn
- Yw gyrrwyr yn aros gyda'r cerbyd er mwyn gallu ei symud pe bai argyfwng a bod angen llwybr dirwystr i'r ysgol

## GWISG YSGOL

Mae gan Ysgol Gymuned Penisarwaun wisg ysgol swyddogol fel a ganlyn:-

| GAEAF | HAF |
|---|---|
| 1.Trowsus neu sgert ddu/lwyd<br><br>2. Crys polo gwyn<br><br>3. Siwmper / Crys Chwys goch gyda logo'r ysgol | Fel y Gaeaf ond, yn ychwanegol:-<br><br>1. Shorts Du/Llwyd<br>2. Ffrogiau Gingham coch a gwyn |

Gallwch archebu gwisg drwy'r ysgol (rydym yn archebu tua 3 gwaith y flwyddyn) neu gallwch ei phrynu'n uniongyrchol o siopau arbenigol e.e. Krypton Kloth, Brodwaith neu Orchid Fashion.

**Dylai pob dilledyn gael eu marcio'n glir gydag enw'r plentyn.**



## DYSGU AC ADDYSGU

Mae ethos yr ysgol wedi'i seilio ar y cysyniad o'r ysgol fel uned deuluol estynedig. Mae'r uned yma,wedyn, yn cael ei rannu'n ddosbarthiadau llai yn ôl oedran y plant gydag un neu ddau aelod o staff yn gyfrifol am bob dosbarth. Oherwydd natur yr ysgol a'r cydweithio agos rhwng aelodau o staff, mae'r staff yn dod i adnabod holl blant yr ysgol ac mae hyn yn hybu gofal bugeiliol a chreu dilyniant. Mae'r dosbarthiadau'n cael eu trefnu fel a ganlyn:-

| DOSBARTH | OED | STAFF |
|---|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | 3-7 | Nia Haf Jones / Ffion Lloyd Hughes<br>Sharon Jones<br>Tania Jones |
| Bl.3/4/5/6 | 7-11 | Wyn Morgan Griffith<br>Catrin Lloyd Roberts<br>Rhian Owen |

Hysbysir rhieni os bydd unrhyw newid i'r drefniadaeth uchod.

## PATRWM GWAITH

Er mwyn ymateb i holl amcanion yr ysgol ac er mwyn sicrhau profiadau gwerthfawr ac eang i'r plant, mae'r patrwm gwaith

yn gallu bod yn hyblyg. Yn gyffredinol, addysgir y plant fel uned ddosbarth dan ofal athro/athrawes. Mae'r plant yn cael profiadau o weithio fel unigolion cyd-weithio mewn grwpiau/parau, ac addysgu eu cyfoedion gyda nod gyffredinol o feithrin sgiliau gweithio'n annibynnol yn y dosbarth.



## Y CWRICWLWM

Yn unol â gofynion Deddf Addysg 1986 mae'r Awdurdod Addysg wedi llunio ac yn bwriadu adolygu'n rheolaidd ddatganiad ysgrifenedig o'i bolisi yng Nghyd destun y cwricwlwm secwlar. Dehonglir gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyd-destun athroniaeth a pholisïau presennol yr Awdurdod.

Mae'r cynllun sydd yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn Ysgol Gymuned Penisarwaun wedi ei seilio ar ddogfen yr Awdurdod Addysg ac yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys manylion am y cwrs addysg a'r ffordd mae'n cael ei weithredu er mwyn sicrhau fod yr addysg sydd yn cael ei gynnig i'r disgyblion yn cydfynd ac amcanion yr ysgol.

Mae'r Corff Llywodraethol wedi mabwysiadu amcanion cwricwlaidd sy'n datgan bod Ysgol Gymuned Penisarwaun yn creu awyrgylch, cyfleoedd, ac adnoddau a fydd yn:

1. creu amgylchfyd ac awyrgylch lle gall y disgyblion dyfu, datblygu ac aeddfedu i fod yn unigolyn hyderus, yn ymwybodol o les eraill ac i ddatblygu ac ymarfer ei holl ddoniau/doniau a datblygu i'w lawn neu llawn botensial

2. cynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl sydd yn adlewyrchu gofynion yr Awdurdod, y gymdeithas a'r unigolyn.

3. cymhwyso'r plentyn:
i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas ddwyieithog, a bod yn ymwybodol o'r etifeddiaeth Gymreig, i gyfrannu i'r gymdeithas, i dderbyn oddi wrth y gymdeithas, ac i fyw yn gytûn yn y gymdeithas.

4 eu paratoi i fod yn ddinasyddion cyfrifol.

Er mwyn hybu'r amcanion yma bydd yr ysgol yn ceisio:

1. Datblygu sgiliau llafaredd, llythrennedd a rhifedd y plentyn ar yr un pryd â meithrin chwilfrydedd, dychymyg a diddordeb y plentyn.
2. Cynyddu gwybodaeth a datblygu gallu rhesymu y plentyn fel ei fod ef neu hi'n hyderus wrth ddelio a phrosesau a thechnegau newydd, ac yn gallu byw yn hapus a llwyddiannus mewn byd sydd yn newid drwy'r amser.
3. Creu'r awydd ym mhob plentyn i fod eisiau dysgu a phrofi pethau newydd yn ystod ei oes, a datblygu synnwyr moesol ac ysbrydol .
4. Cynorthwyo'r plentyn i fyw a gweithio gydag eraill a datblygu agweddau a fydd yn galluogi'r plentyn i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas.
5. Datblygu sensitifrwydd, gwerthfawrogiad esthetig a sgiliau hamdden yn y plentyn .
6. Trin a darparu ar gyfer pob plentyn fel unigolyn sy'n haeddu sylw arbennig.
7. Cyflwyno syniadau a chysyniadau mewn dull sy'n fywiog a deinamig er mwyn dal sylw a chadw diddordeb y plentyn.
8. Meithrin cysylltiad iach rhwng ysgol a chymdeithas, gan ystyried yr ysgol fel sefydliad sy'n rhan o'r gymdeithas leol.
9. Meithrin ymdeimlad o falchder yn yr ysgol, ei disgyblion, athrawon a'i chyfraniad i'r gymdeithas.

Mae'r ysgol yn y gorffennol wedi cynllunio'r cwricwlwm gan ddilyn awgrymiadau Cyngor Cwricwlwm Cymru ar bynciau craidd a phynciau sylfaenol.

Ar gyfer y cyfnod Sylfaen, addysgir y plant ar draws y saith maes dysgu:



1. Datblygiad Llythrennedd
2. Datblygiad Mathemategol
3. Datblygiad Personol a Chymdeithasol
4. Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
5. Datblygiad Creadigol
6. Datblygiad Corfforol
7. Y Cwricwlwm Cymreig

Ar gyfer Cyfnod Allweddol 2, addysgir y pynciau craidd a'r pynciau sylfaen.
Y pynciau craidd yw **Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, a Gwyddoniaeth.**

Y Pynciau sylfaenol yw **Technoleg, Hanes, Daearyddiaeth, Celf, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol, Addysg Grefyddol, a Thechnoleg Gwybodaeth.**

Mae'r pynciau'n cael eu cyflwyno i'r plant drwy ddilyn themâu penodol o fewn y dosbarth sydd yn arwain at weithgareddau a phrofiadau ym mhob maes. Mae'r athrawon yn cofnodi cyfraniad pob 'pwnc' i'r thema mewn ffordd systematig er mwyn sicrhau bod y plant yn derbyn addysg gyflawn o fewn y cwricwlwm. Ar rai adegau bydd pynciau fel Mathemateg, Iaith, Cerdd ac Addysg Grefyddol yn cael eu dysgu y tu allan i'r brif thema.

Ond mae newidiadau cyffroes ar droed. Mae Cwricwlwm newydd yn y broses o gael ei lunio. Dros y cyfnod nesaf bydd yr ysgol yn diwygio peth ar y drefn bresenol er mwyn ymateb i'r Gwricwlwm Newydd newydd hwn a fydd yn weithredol o 2022 ymlaen. Bydd mwy o wybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru ar gael yn fuan.

## TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU (TGCh)

Mae datblygiadau diweddar ym myd addysg yn rhoi statws uchel i Dechnoleg Gwybodaeth. Fframwaith Cymhwysedd Digidol yw rhan cyntaf y Cwricwlwm i Gymru ac mae'r ysgol eisoes wedi dechrau ymateb i ofynion y Fframwaith newydd hon. Rhoddir pwyslais yn yr ysgol ar ddatblygu Technoleg Gwybodaeth yn drawsbynciol. Mae'r ysgol bellach wedi diweddaru adnoddau TGCh ac o ganlyniad yn barod i ymgymryd a'r her newydd. Yr ydym yn ffodus o gael ystod eang a phriodol o offer yn yr ysgol gan gynnwys: server, cyfrifiaduron, , iPads, chromebooks, craffwyr, Bee-Bot, a.y.y.b

Bydd disgyblion yn cael eu haddysgu am beryglon y we a sut I wneud dewisiadau doeth wrth ddefnyddio'r dechnoleg.

## ADDYSG GREFYDDOL

Mae Addysg Grefyddol yn cael ei ddysgu i holl blant yr ysgol ac mae disgwyl i bob plentyn gymryd rhan yn y cyd-addoli oni bai bod rhiant (neu plentyn os ym Mlwyddyn 6) yn eithrio'r plentyn o'r gwersi a/neu cyd addoliad boreol. Os yw plentyn yn cael ei eithrio bydd trefniadau addas yn cael eu gwneud e.e. Sesiynau rhifedd/llythrennedd ychwanegol o dan arweiniad cymhorthydd. Nid oes gan yr ysgol gysylltiad uniongyrchol na ffurfiol gydag unrhyw enwad crefyddol penodol.

## ADDYSG GORFFOROL

Mae'r mwyafrif o bobl ifanc yn cael eu profiad cyntaf o chwaraeon yn yr ysgol ac mae'r ysgol yn annog pob disgybl i gymeryd rhan mewn gweithgareddau corfforol o'u dyddiau cyntaf yn yr ysgol. Y nod yw bod plant yn gadael yr ysgol ac yn cynnwys ymarfer corff a chwaraeon fel rhan naturiol o'u bywydau—boed hynny ar lefel uchel o gystadlu neu ar lefel gymdeithasol.

Er mwyn hybu diddordeb a sgiliau, mae'r ysgol yn cynnig nifer o chwaraeon a'r bwriad yw annog pob unigolyn i ddatblygu a chyrraedd eu potensial.

Cynhelir dwy wers Addysg Gorfforol wythnosol a disgwylir i bob plentyn gymeryd rhan onibai bod anaf neu salwch yn eu rhwystro. Disgwylir i bob plentyn ddod â dillad ac esgidiau addas er mwyn cymryd rhan yn y gwersi. Am resymau diogelwch, mae'n rhaid i bob plentyn dynnu modrwyau, cadwyni a chlustdlysau cyn y wers.

Cynigir ystod o weithgareddau yn ystod y gwersi gan gynnwys nofio (yng Nghanolfan Arfon), tenis, athletau, gemau cystadleuol (criced, rygbi, pelrwyd), dawns, gymnasteg a gweithgareddau awyr agored e.e.cyfeiriannu. Er mwyn cyfoethogi'r ddarpariaeth ymhellach,mae'r ysgol yn trefnu ymweliadau â Chanolfan Awyr Agored amrywiol yn ôl y gofyn.

## ADDYSG RHYW A PHERTHNASOEDD

Mae'r ysgol wedi ymateb i ofynion Cynulliad Cenedlaethol Cymru i weithredu rhaglen 'Addysg Rhyw a Pherthnasoedd'. Defnyddir fframwaith ABCh a'r Cwricwlwm Gwyddoniaeth fel sylfaen. Y nod yw meithrin hunan barch a deallusrwydd bechgyn a genethod o'u cyrff eu hunain drwy ymdrîn â materion rhywiol mewn ffordd sensitif a chan feithrin agwedd iach ac aeddfed tuag at brosesau bywyd a materion rhywiol.

Ymdrechir i ateb unrhyw gwestiynau sydd yn codi'n naturiol gan y plant ac fe ymdrinnir â'r maes mewn modd sensitif a synhwyrol gan bwysleisio'r perthynas teuluol a chariadus. Mae hawl gan rieni i eithrio'u plant o rannau o'r gwersi Addysg Rhyw. Gallech, pe dymunwch, ymgynghori â'r Pennaeth ynghylch polisi'r ysgol ar Addysg Rhyw.

## ADDYSG BERSONOL A CHYMDEITHASOL

Cyflwynir yr agwedd yma drwy nifer o ddulliau: gweithgareddau dosbarth, Amser Cylch, siaradwyr gwadd, ymweliadau addysgol. Mae'r plant yn datblygu sgiliau niferus drwy'r gweithgareddau— sgiliau cymdeithasol, gwneud ffrindiau, datrys problemau, cydweithio, deall emosiynau a'u teimladau ei hunain ac eraill.

Rydym hefyd yn gweithredu'r cynllun Webster-Stratton sydd yn atgyfnerthu ein hamcanion o greu ymagwedd bositif yn yr ysgol.

## CYNLLUN YSGOL IACH

Mae'r ysgol yn rhan o'r cynllun hwn sydd yn cael ei gydlynu gan swyddog penodol. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio tuag at Gam 2 a 3 o'r cynllun.

## CYNLLUN Eco 'sgolion

Mae'r ysgol yn cymeryd ei chyfrifoldeb i amddiffyn yr amgylchedd o ddifrif. Prif nod y cynllun yw codi ein hymwybyddiaeth fel ysgol a ffocysu ar weithio tuag at wella ein hamgylchedd. drwy:-

- Leihau gwastraff
- Arbed ynni ac adnoddau naturiol
- Lleihau a rhwystro llygredd
- Edrych ar ôl yr amgylchedd leol a byd eang
- Teithio'n ddoeth

Rydym hefyd yn rhan o'r Cynllun Sbarci a Fflic ac mae Tim Ynni'r ysgol yn gweithio'n galed i sicrhau ein bod yn arbed ynni.

## CYFLE CYFARTAL

Cydnabyddwn bod ein plant yn tyfu i fyny mewn cymdeithas eang a nodweddir gan wahaniaethau, nid yn unig mewn hil ond mae crefydd, anabledd, gwisg, bwyd ac iaith yn adlewyrchu'r newidiadau cyfoes hyn. Anelwn, felly, i alluogi'r plant i ddeall a gwerthfawrogi natur aml-ddiwylliannol amrywiol gymdeithasau.





Yn Ysgol Gymuned Penisarwaun byddwn yn:-

- Darparu cyfle cyfartal i bob disgybl
- Sicrhau nad oes unrhyw ddisgybl yn dioddef rhagfarn ar sail hil, cred, rhyw, iaith, gallu addysgol, safle cymdeithasol ac anabledd
- Sicrhau mynediad i'r cwricwlwm i bob disgybl
- Sicrhau bod agweddau cymdeithasol cadarnhaol yn cael eu meithrin yn yr ysgol

Mae Polisi Cyfle Cyfartal yr ysgol yn manylu ymhellach.

## GWAITH CARTREF

Gosodir gwaith cartref yn rheolaidd. Gall hyn gynnwys darllen adref a rydym yn annog pob plentyn i fynd a llyfrau adref gyda hwy yn ddyddiol.

Ambell dro, mae gweithgarwch yn gofyn am wybodaeth gan rieni a pherthnasau neu'n gofyn am holi a darganfod ar ran y plant. Gwerthfawrogwn gymorth rhieni a gwarcheidwaid mewn achlysuron fel hyn ac wrth weithredu fel cydaddysgwyr gyda ni.

# ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Ceir polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol gweithredol a chyflawn yn yr ysgol a ddiweddarwyd i ddilyn Cod Ymarfer AAA Cymru a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2002. Bydd pob disgybl ag ADY yn dilyn y cwricwlwm gyda disgyblion eraill. Os oes unrhyw anawsterau, yna :

- Rhoddir sylw unigol yn y dosbarth
- Bydd yr athro dosbarth yn paratoi gwaith gwahaniaethol
- Trefnir cydweithio â phlant eraill
- Ymgynghorir gydag asiantaethau cynhaliol
- Cynhelir trafodaethau gyda rhieni

Llunir Cynllun Addysgu Unigol ar y cyd rhwng athro dosbarth a'r cydlynydd ADY ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd ar y gofrestr. Cynhelir adolygiadau ar gynnydd disgyblion yn dymhorol; trwy drafodaethau rhwng rheini a'r athrawon, y cydgysylltydd ADY, cymhorthyddion ADY gan roi pwyslais, hefyd, ar gyfraniad y disgybl.

Catrin Lloyd Roberts yw'r cydgysylltydd ADY. Phyllis Ellis yw'r llywodraethwr sy'n gyfrifol am ADY. Bydd y Pennaeth yn gyfrifol am oruchwylio'r drefn o fewn yr ysgol.

Cedwir cofrestr o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â chyfarwyddiadau'r Awdurdod sydd yn dilyn y Côd Ymarfer 2002.

Mae adeiladau'r ysgol yn addas ar gyfer plant ac oedolion sydd yn defnyddio cadair olwyn. Mae gan yr ysgol gynllun hygyrchedd cyfredol.



## DARLLEN

Mae'r ysgol yn gosod pwyslais mawr ar ddatblygu darllen. Defnyddir ystod o strategaethau e.e. darllen unigol, darllen grŵp, dallen tim yn ogystal a darllen llyfrau ar y we. Yr ydym yn asesu darllen plant yn rheolaidd ac yn cyflwyno rhaglenni ymyrraeth os bydd angen e.e. Dyfal Donc.

Yn ystod y Cyfnod Sylfaen, mae'r plant yn mynd â llyfrau adref i'w darllen gyda'u rhieni. Gofynnir i rieni wrando ar neu gyd-ddarllen gyda'r plentyn a chofnodi hyn yn y llyfrau pwrpasol.

Erbyn Cyfnod Allweddol 2, bydd disgwyl i'r plant fod wedi meithrin mwy o annibyniaeth wrth ddarllen ac yn darllen am eu bod yn mwynhau gwneud. Unwaith eto, bydd llyfrau i'r plant fynd adref gyda hwy ac rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad rhieni wrth annog y plant i ddarllen.

## ASESU

Mae datblygiad cymdeithasol ac addysgol plentyn yn cael ei fesur a'i gofnodi trwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol. Rydym yn asesu'n anffurfiol drwy'r amser ac, hefyd, yn darparu tasgau ar gyfer asesu mewn modd mwy ffurfiol e.e. profion.

- Bydd plant yn cael eu hasesu yn ystod eu tymor cyntaf yn yr ysgol
- Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn 2), mae asesiad athro'n ymdrin â phob targed cyrhaeddiad mewn Datblygiad Llythrennedd, Datblygiad Rhifedd a Datblygiad Personol a Chymdeithasol.
- Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (Bl.6), asesir y plant yn erbyn y targedau cyrhaeddiad yn y 4 pwnc craidd:

Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

Bydd y canlyniadau ynghyd ag adroddiad llawn ar lefelau cyrhaeddiad y plant yn y pynciau oll yn cael eu paratoi erbyn diwedd y flwyddyn addysgol.

## ASESU AR GYFER DYSGU

Mae gan y plant rôl ganolog yn y broses asesu ac mae'r ysgol yn defnyddio amryw o ddulliau Asesu ar Gyfer Dysgu sydd yn rhoi gwell dealltwriaeth i'r plant o beth yr ydym yn ei ddysgu, a pham yr ydym yn ei ddysgu. Defnyddir dulliau megis:-

- Hunan asesu eu gwaith
- Asesu gwaith ei gilydd
- Asesu ar y cyd gyda'r athro/athrawes
- Gosod targedau eu hunain ar gyfer gwelliant
- Trafod y dulliau a fu o gymorth iddynt ddysgu
- Modelu gwaith da

Defnyddir canfyddiadau'r broses asesu fel dull o lywio'r cynlluniau tymor byr ac, felly, gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau'r ysgol ac amser y plant.

Yn ogystal bydd yr ysgol yn hyrwyddo agweddau Meddylfryd Twf.

## CYSYLLTIADAU CARTREF-YSGOL

Mae cefnogaeth a chymorth rhieni a'r gymuned yn hanfodol ar gyfer llwyddiant yr ysgol ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan y llywodraethwyr a holl staff yr ysgol.

CYFARFODYDD YSGOL-RHIENI
Ceir amryw o gyfleoedd ffurfiol i rieni ddod i'r ysgol i drafod gwaith/cynnydd/lles eu plentyn

| | |
|---|---|
| Tymor yr Hydref | Cyfarfod i drafod cynnydd cyffredinol yn ystod y tymor a thrafod targedau |
| Tymor y Gwanwyn | Cyfle i ddod i edrych a thrafod gwaith y plentyn a dulliau addysgu |
| Tymor yr Haf | Cyfarfod i drafod yr Adroddiad Blynyddol a'r datblygiad addysgol trwy'r flwyddyn. |
| | Cyfarfod i rieni sydd a plant yn cychwyn yn y dosbarth Meithrin / Derbyn o'r newydd |

Mae croeso, wrth gwrs, i rieni ymweld â'r ysgol ar unrhyw adeg i drafod gwaith neu ddatblygiad eich plentyn.
Gofynnwn i chi drefnu apwyntiad o flaen llaw os oes modd gan bod pob athro, gan gynnwys y pennaeth, yn gofalu am ddosbarth.

## CYFEILLION YR YSGOL

Mae Cyfeillion yr Ysgol wedi'i sefydlu yn yr ysgol ers tro bellach. Nod greiddiol y Cyfeillion yw trefnu gweithgareddau i hel arian er budd yr ysgol ond mae'r Cyfeillion hefyd yn cyflawni rôl hollbwysig wrth drefnu gweithgareddau sy'n gymdeithasol eu naws ac yn gyfle i bawb ddod i adnabod ei gilydd yn well. Mae'r cyfeillion yn weithgar iawn ac wedi codi swm sylweddol yn ddiweddar tuag at diweddaru adnoddau'r ysgol.
Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno yng ngweithgareddau'r Cyfeillion. Bydd llythyr / neges destun yn cael ei yrru allan i roi rhybudd pan fydd cyfarfod.

## CINIO YSGOL

Mae cinio ysgol yn cael ei ddarparu'n ddyddiol gan gynnwys prydau arbennig ar gyfer llysieuwyr ayyb. ac mae copi o'r fwydlen gyfredol ar gael yn yr ysgol. (Bwydlen ddiweddraf yn Atodedig)

Cost y cinio yw £2.50c y diwrnod ac adolygir hyn ar gyfer Medi pob blwyddyn. Dylid talu am ginio ysgol drwy system ar lein. Schoolcoms Bydd rhaid cofrestru i wneud hynny drwy gwblhau ffurflen sydd ar gael yn yr ysgol.

Os nad yw'r plentyn am gael cinio ysgol, mae croeso i chwi yrru pecyn bwyd. Am resymau diogelwch, gofynnir i chwi beidio â chynnwys potel ddiod wydr nac ychwaith ddiod fizzy. Ni chaniateir i blentyn ddod â phethau da i'r ysgol.

## SIOP FFRWYTHAU

Mae plant y Cyngor Ysgol yn rhedeg y siop ffrwythau sydd ar agor yn ystod amser egwyl y bore bob dydd.

Mae'r siop yn gwerthu bananas, afalau, orennau, melon, mefus a grawnwin am bris rhesymol iawn o 20c yr eitem.

## DIOGELWCH

Mae'r ysgol wedi gosod cyfarpar diogelwch ar ddrysau allanol yr ysgol er mwyn rhwystro mynediad direolaeth i'r adeilad. Tra mae'r plant allan ar y buarth, bydd aelodau o staff yn eu goruchwylio.

Nid yw plant i fynd oddi ar dir yr ysgol ar unrhyw adeg nac am unrhyw reswm heb ganiatâd neu goruchwyliaeth aelod o staff.

## TREFN AMDDIFFYN PLANT

Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn y plant sydd yn mynychu'r ysgol.

Os ceir pryderon ynglŷn ag esgeulustod, neu gam-drin corfforol, emosiynol neu rywiol, y mae'n ddyletswydd ar y staff i adrodd ar y mater wrth Gydgysylltydd Diogelu Plant yr Ysgol.

Y Pennaeth, Catrin Lloyd Roberts ydy cydgysylltydd diogelu plant yr ysgol a Miss Nia Haf Jones sydd yn dirprwyo yn y maes yn absenoldeb y pennaeth.

Gall y cydgysylltydd ymghynghori gyda chyd-weithwyr proffesiynol yn ogystal ag asiantaethau perthnasol fel y Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol. Mewn rhai achosion, bydd angen i'r cydgysylltydd gyfeirio materion at sylw'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n penderfynu a oes angen gweithredu neu peidio.

O bryd i'w gilydd, ni fydd yn briodol i'r ysgol drafod mater gyda rhieni cyn cyfeirio plentyn. Gall rhai digwyddiadau gael eu hymchwilio gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu.

Y llywodraethwr gyda cyfrifoldeb am Amddiffyn Plant yw Gwenllian Carr. Herd.

## MEDDYGOL

Mae disgwyl i rieni ddweud wrth yr ysgol os oes unrhyw gyflwr meddygol a allai effeithio ar waith neu ymddygiad eu plentyn tra yn yr ysgol.

Os oes angen i blentyn dderbyn moddion yn ystod oriau ysgol mae angen cwblhau ffurflen arbennig sydd ar gael o'r ysgol.

Mewn achosion lle bo plentyn yn cael ei anafu yn yr ysgol e.e. trwy ddamwain, bydd y staff sy'n gymwys I roi Cymorth cyntaf yn rhoi triniaeth sylfaenol. Bydd yr ysgol yn gwneud pob ymdrech i gysylltu gyda rhieni ond, mewn achosion brys, bydd yr ysgol yn trefnu i'r plentyn gael ei gludo i'r ysbyty neu at feddyg.

## LLAU PEN

Mae achosion o lau pen yn parhau i fod yn gyffredin yn y gymdeithas ac yn ysgolion Cymru. Mae ysgolion y dalgylch wedi cytuno ar drefn gyffredin i ymateb i'r broblem. Os yw aelod o staff yn gweld neu yn amau bod gan blentyn lau pen yna bydd yr ysgol yn cysylltu'n uniongyrchol gyda'r rhieni a threfnu iddynt gasglu'r plentyn o'r ysgol. Bydd disgwyl wedyn i'r rhieni ddelio gyda'r broblem cyn i'r plentyn ddychwelyd i'r ysgol. Byddwn yn ddiolchgar I unrhyw un sy'n gweld llau Pen gysylltu ar ysgol er mwyn I ni aatgoffa pob rhiant I archwilio penau ei plant.

## CYNNAL YMDDYGIAD

Mae ein polisi yn glir—dylid roi pwyslais ar y cadarnhaol gan annog a chanmol ynghyd â phwysleisio ymddygiad briodol bob amser. Credwn bod hyn yn meithrin ac yn atgyfnerthu parch at gyfoedion, oedolion ac eiddo.

Rydym yn ceisio creu ethos drwy'r ysgol a fydd yn sicrhau amgylchfyd ac awyrgylch hapus a threfnus.

Os yw plentyn yn camymddwyn yn rheolaidd a Dim newid yn yr ymddygiad yn dilyn pob ymdrech resymol gan yr ysgol, bydd yr ysgol yn dilyn canllawiau'r AALI gan ystyried, yn y pen draw y posibilrwydd o wahardd y plentyn.
Fe wneir pob ymdrech i adfer y sefyllfa cyn cymeryd camau o'r math.

Mae polisi a chanllawiau pendant ar gyfer trin achosion o fwlio ac mae'r ysgol yn cywdeithio'n agos gyda plant i'w gwneud yn fwy ymwybodol o fwlio a'r canlyniadau posibl.

Os yw plentyn yn torri eiddo yn perthyn i'r ysgol yn fwriadol yna disgwylir bod rhieni/gwarcheidwaid yn digolledu'r ysgol.

## Y DREFN GWYNO

O bryd i'w gilydd gall rhiant/warcheidwad fod yn anhapus gyda agwedd o addysg eu plentyn, trefniadaeth/weithdrefn yn yr ysgol neu aelod o staff. Mae trefn wedi'i sefydlu i ddelio gyda cwynion o'r fath.

Dylid dilyn y camau isod yn eu trefn nes bod y mater wedi ei ddatrys.

**Cam 1**
Dylid gwneud cŵyn, yn y lle cyntaf, i aelod o staff neu lywodraethwr ar lafar neu'n ysgrifenedig. Yna bydd yr ysgol, yn cymeryd camau (os bydd angen) i ddatrys y gŵyn)

Os na fydd yr sawl sy'n gwneud y gŵyn yn teimlo fod yr ysgol wedi ymdrin â'r gŵyn yn foddhaol, dylid symud ymlaen i Gam 2.

**Cam 2**
Cŵyn ysgrifenedig i'r Pennaeth.

Bydd y Pennaeth yn penderfynu sut i weithredu a chyfeirio'r gŵyn os oes angen i'r IsBwyllgor perthnasol.

Bydd y Pennaeth yn ysgrifennu at y sawl a gododd gŵyn i nodi sut bydd yr ysgol yn gweithredu (os oes angen gwneud hynny). Os nad yw'r person sy'n cwyno yn hapus gydag ymateb y Pennaeth, dylid symud ymlaen i Gam 3.

**Cam 3**
Dylid ysgrifennu'n uniongyrchol at Gadeirydd y Llywodraethwyr yn amlinellu'r gŵyn. Bydd y Cadeirydd, naill ai'n trafod y gŵyn gyda'r corff llawn neu Is-Banel yn ôl y gofyn. Yna bydd penderfyniad yn cael ei wneud a hysbysir y sawl a gododd y gŵyn trwy lythyr.

**Cam 4**
Os yw'r gŵyn yn parhau heb ei datrys, dylid cyfeirio cŵyn ffurfiol yn uniongyrchol i'r Awdurdod Addysg.

## CODI TÂL AM WEITHGAREDDAU

Rydym yn ceisio cadw costau gweithgareddau mor rhesymol â phosibl. Ond, yn achlysurol, byddwn yn gofyn am gyfraniad rhieni tuag at y gost. Nid oes gan yr ysgol hawl i fynnu tâl am weithgareddau sy'n digwydd yn ystod amser ysgol (ar wahan i wersi offerynnol) ond mae gan yr ysgol hawl i ganslo gweithgaredd os bydd lefel y cyfraniadau'n isel ac yn golygu cost/golled sylweddol i'r ysgol.

Gwerthfawrogwn barodrwydd rhieni i'n cynorthwyo bob amser.

## CLWB Plant Penisarwaun

Mae'r ysgol yn cynnig clwb gofal plant ar ôl oriau ysgol. Cynhelir y Clwb yn yr ystafell a neuadd gymunedol yn yr ysgol rhwng 15:10 a 16:50 pob dydd.

Gall y clwb gymeryd hyd at 16 o blant yn ddyddiol i gadw'r gymhareb staff:plant at 1:8.

Trefnir ystod eang o weithgareddau e.e.chwaraeon, crefftau a darperir lluniaeth ysgafn e.e. Brechdanau, tost, ffrwythau.

Prif amcanion y clwb yw cynnig:-

- Gofal ar ôl ysgol o'r safon uchaf, yn ddwyieithog, am bris rhesymol sydd o fewn cyrraedd i'r gymuned leol
- Cyfle i rieni a gofalwyr ddychwelyd i weithio
- Awyrgylch greadigol sy'n symbylu'r plant er mwyn iddynt, drwy chwarae unigol a grŵp, ddatblygu'n gymdeithasol, deallusol ac yn emosiynol

## CLWB BRECWAST

Mae'r ysgol yn cynnig Clwb Brecwast sy'n agor am 8:15. Ceir y brecwast olaf am 8:40 ac mae croeso i holl blant yr ysgol fynychu os ydynt yn dymuno. Bydd angen cofrestru disgyblion sy'n cyrraedd cyn 8.35 a'r-lein a bydd côst dyddiol am y gwasanaeth gwarchod hwn.

Mae'n gyfle da i'ch plentyn gymdeithasu gyda phlant eraill cyn i'r ysgol ddechrau ac i gymeryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog.

# Y CYNGOR YSGOL

Mae'r Cyngor Ysgol yn fforwm i 'r disgyblion:-

- Sefydlu a gweithredu ethos yr ysgol
- Fynegi barn am agweddau o waith yr ysgol
- Gymeryd penderfyniadau am ddigwyddiadau / trefniadaeth yn yr ysgol
- Gyfrannu at wneud yr ysgol yn le hapusach i bawb
- Wella cyfathrebu rhwng y plant, staff a'r llywodraethwyr

Siarter Iaith:

Yma yn Ysgol Penisarwaun rydym yn hyrwyddo'r Siarter Iaith. Anelwn at i bob plentyn allu a dewis siarad Cymraeg graenus ymhob agwedd o fywyd yr ysgol a thu hwnt. Anelwn i sicrhau bod pob un wedi ei trochi yn y diwylliant Cymreig ac o ganlyniad yn ymfalchio yn eu iaith , eu diwylliant a'u traddodiadau Cymreig.

Rydym yn sylweddoli bod gallu siarad dwy iaith yn cynnig dwywaith y dewis o ran agor drysau i fyd gwaith a bywyd cymdeithasol llawer mwy amrywiol. Anelwn at weld pob plentyn yn gwbl ddwyieithiog erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2.

Bwriadwn ymgyrraedd a nodau'r siarter Iaith drwy gydweithio rhwng disgyblion, rhieni, staff, Llywodraethwyr, Awdurdod Addysg a Chymuned ehangach yr ysgol.

Bydd y Cyngor Ysgol yn llunio targedau blynyddol o ran Siarter Iaith, bydd y targedau hyn yn deillio o ganlyniadau'r holiaduron blynyddol.

Grantiau :

Yn ystod y flwyddyn bydd yr ysgol yn detrbyn grantau

## Adroddiad Dilysiad yr Ysgol 2019 (Diwedd y Cyfnod Sylfaen - Disgyblion)

(Tabl 1 o 2 - CANRANNAU)
**Gwynedd**
Ysgol Gymuned Penisarwaun

| | | N | D | W | Z | S | G | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | A |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol** | 2019 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 42.9 | 57.1 | 0.0 |
| | *2018* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *40.0* | *60.0* | *0.0* |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn y Gymraeg)** | 2019 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 14.3 | 0.0 | 42.9 | 42.9 | 0.0 |
| | *2018* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *20.0* | *40.0* | *40.0* | *0.0* |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn Saesneg)** | 2019 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| | *2018* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* |
| **Datblygiad mathemategol** | 2019 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 28.6 | 28.6 | 42.9 | 0.0 |
| | *2018* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *60.0* | *40.0* | *0.0* |

DCS **

| | |
|---|---|
| 2019 | 71.4 |
| *2018* | *80.0* |

**Nodiadau**
N: Ni ddyfarnwyd lefel am resymau heblaw datgymhwyso
D: Datgymhwyswyd o dan Adran 364 neu 365 o Ddeddf Addysg 1996, a weithredit bellach drwy adrannau 113-116 o Ddeddf Addysg 2002.
W: Gweithio tuag at Ddeilliant y Cyfnod Sylfaen.
A: Perfformiad yn uwch na Deilliant 6 y Cyfnod Sylfaen.

- : Nid yw'n union sero, ond yn llai na 0.05
** : Wedi cyflawni'r deilliannau a ddisgwyliwyd yn y canlynol "Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn Gymraeg)" neu "Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn Saesneg)", "Datblygiad mathemategol", a "Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol".

# Adroddiad Dilysiad yr Ysgol 2019 (CA2 - Disgyblion)

(Tabl 1 o 2 - CANRANNAU)
**Gwynedd**
Ysgol Gymuned Penisarwaun

| | | N | D | NCO1 | NCO2 | NCO3 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6+ | 4+ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Saesneg** | 2019 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 14.3 | 85.7 | 0.0 | 0.0 | 85.7 |
| | *2018* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *20.0* | *20.0* | *60.0* | *0.0* | *80.0* |
| Llafaredd | 2019 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 14.3 | 71.4 | 14.3 | 0.0 | 85.7 |
| | *2018* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *40.0* | *60.0* | *0.0* | *100.0* |
| Darllen | 2019 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 14.3 | 71.4 | 14.3 | 0.0 | 85.7 |
| | *2018* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *20.0* | *20.0* | *60.0* | *0.0* | *80.0* |
| Ysgrifennu | 2019 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 28.6 | 71.4 | 0.0 | 0.0 | 71.4 |
| | *2018* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *40.0* | *20.0* | *40.0* | *0.0* | *60.0* |

| | | N | D | NCO1 | NCO2 | NCO3 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6+ | 4+ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymraeg Iaith Gyntaf** | 2019 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 28.6 | 57.1 | 14.3 | 0.0 | 71.4 |
| | *2018* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *40.0* | *60.0* | *0.0* | *100.0* |
| Llafaredd | 2019 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 14.3 | 71.4 | 14.3 | 0.0 | 85.7 |
| | *2018* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *40.0* | *60.0* | *0.0* | *100.0* |
| Darllen | 2019 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 28.6 | 57.1 | 14.3 | 0.0 | 71.4 |
| | *2018* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *40.0* | *60.0* | *0.0* | *100.0* |
| Ysgrifennu | 2019 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 42.9 | 42.9 | 14.3 | 0.0 | 57.1 |
| | *2018* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *40.0* | *20.0* | *40.0* | *0.0* | *60.0* |

| | | N | D | NCO1 | NCO2 | NCO3 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6+ | 4+ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mathemateg** | 2019 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 14.3 | 42.9 | 42.9 | 0.0 | 85.7 |
| | *2018* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *40.0* | *60.0* | *0.0* | *100.0* |

| | | N | D | NCO1 | NCO2 | NCO3 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6+ | 4+ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwyddoniaeth** | 2019 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 14.3 | 42.9 | 42.9 | 0.0 | 85.7 |
| | *2018* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *0.0* | *40.0* | *60.0* | *0.0* | *100.0* |

Dangosydd Pwnc Craidd **

| | |
|---|---|
| 2019 | 85.7 |
| *2018* | *100.0* |